PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU PLANT

DYDD IAU, 20 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Hinchey(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Elsmore, Lister, Taylor a/ac Williams |

9 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

10 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Doedd dim datganiadau buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

11 : CYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD – nodi'r cylch gorchwyl fel a ganlyn:

"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".

12 : COFNODION Y CYFARFOD 8 AWST 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 6 Awst 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

13 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, oherwydd natur y busnes i'w drafod, y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

14 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU PLANT

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant ei ailymgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Ymgeisydd 1 wedi tynnu nôl o'r broses.

Cyflwynodd Miriam Burton, yr Ymgynghorydd Aseswyr Arweiniol Allanol yr adroddiadau mewn perthynas ag Ymgeiswyr 2 a 3 a gwblhaodd yr ymarferion canolfannau asesu oedd wedi'u sgorio'n erbyn y cymwyseddau angenrheidiol a'r disgrifiad rôl. Ystyriodd y Pwyllgor, ar sail y sgôr yn erbyn y cymwyseddau, y canlyniadau asesu a ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol na fodlonodd y ddau ymgeisydd ofynion rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant ar yr adeg hon.

Trafododd y Pwyllgor gyfleoedd i ehangu hysbysebu'r swydd wag hon yn y sector hwn a'r DU. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r cynllun recriwtio sy'n cael ei ddatblygu yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD –

1. nad oedd y Pwyllgor yn gallu argymell bod un o'r ymgeiswyr yn symud ymlaen at y cam cyfweld.

2. y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartner Pobl AD, i lunio cynllun recriwtio i ehangu'r broses hysbysebu i ddenu ymgeiswyr cymwys ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant.

3. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ni ddylai aelodaeth y Pwyllgor newid yn ystod y broses recriwtio.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

PENDERYNWYD – bod cyfarfod y Pwyllgor Penodi ar gyfer cam cyfweld y broses hon ar 4 Hydref 2018 yn cael ei ganslo.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am